



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Rhaglen Arweinyddiaeth 20twenty

Astudiaeth Achos – Sarah Day



Rheolwr Cyfathrebu - Practice Solutions Ltd, sy'n cynnig gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori hyblyg i fusnesau ledled y DU www.practicesolutions-ltd.co.uk

Fel arweinydd busnes, prif nod Sarah yw sicrhau llwyddiant a thwf yn y dyfodol ar gyfer y cwmni ac mae'n credu bod y Rhaglen 20Twenty wedi rhoi'r ddealltwriaeth angenrheidiol iddi o'r materion allweddol er mwyn cyflawni hyn.

Dywed: "Mae'r gweithdai wedi bod yn rhyngweithiol, yn fwyhad, ac yn anad dim, yn addysgiadol. I berchenogion busnes fel fi, mae llwyddiant a phroffidoldeb bob amser yn

flaenllaw yn ein meddyliau ac ni fu hyn erioed mor bwysig ag ydyw yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Mae'r rhaglen 20 Twenty wedi dangos i mi pa mor bwysig ydyw i gwmnïau fod yn amrywiol er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus, ac wedi darparu cyngor a dulliau defnyddiol iawn ar gyfer rhoi hyn ar waith.

Nid yw rhai o'r penderfyniadau yr wyf wedi eu gwneud gyda fy nhad, a sefydlodd ein busnes ym 1999, wedi bod yn rhwydd, ond rwy'n ffyddiog wrth i ni weithredu'r newidiadau angenrheidiol, ein bod ni'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddwn ni'n dal yn gwmni llwyddiannus o Gymru sy'n tyfu o hyd yn 2020."

Mae Sarah hefyd yn nodi bod ei hyder wedi datblygu o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd ar y rhaglen. Mae'n dweud: "Mae mynychu'r sesiynau hyfforddi wedi rhoi'r hyder i mi i roi fy syniadau ar gyfer ein busnes ar waith. Mae gen i lawer i'w ddysgu o hyd, ond rwyf yn sicr yn cymryd y camau priodol i sicrhau llwyddiant.

Mae cadw cydbwysedd rhwng bod yn wraig ac yn fam i ddau blentyn ifanc, a gweithio'n amser llawn ac ysgrifennu traethodau wedi bod yn heriol ond yn llawer o hwyl. Mae gwybod fy mod i'n dal yn gallu ysgrifennu traethawd sy'n haeddu marc da hefyd yn rhoi hwb mawr i'ch hyder.

Âi Sarah ati i sôn am y berthynas gref a ffurfiwyd ar y cwrs gan ddweud: "bydd y cysylltiadau proffesiynol yr wyf i wedi'u gwneud gyda'r aelodau eraill ar y cwrs 20Twenty yn aros gyda mi am amser hir."